# Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

# Sgiliau a Gwyddoniaeth - Adroddiad diweddaru blynyddol ar roi'r Cynllun Busnes ar waith

## Cyflwyniad

Cynllun statudol a sefydlwyd o dan adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yw Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru ac mae'n amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pendant i ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu polisïau a deddfwriaeth. Yng Nghynllun Busnes Gweinidogion Cymru, diffinnir 'partneriaid cymdeithasol' fel 'cyrff sy'n cynrychioli busnesau a chyflogwyr, undebau llafur a'r aelodau y maent yn eu cynrychioli'. Mae Prif Weinidog Cymru yn cadeirio Cyngor Adnewyddu'r Economi sy'n llywio'r gwaith hwn ac sydd hefyd yn ariannu Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru, sy'n hybu'r broses o ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol.

Mae'r adroddiad diweddaru blynyddol hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl i'r Prif Weinidog a Chyngor Adnewyddu'r Economi am y gweithgareddau perthnasol yr ymgymerodd y portffolio Sgiliau a Gwyddoniaeth â nhw mewn perthynas â gofynion Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref 2015 a diwedd mis Rhagfyr 2016.

## Gweithgareddau/Ymgysylltu

### Ymgysylltu â chyflogwyr a hybu sgiliau

Mae ymgysylltu â chyflogwyr a hybu sgiliau'n golygu rheoli cysylltiadau un-i-un rhwng cwmnïau sydd o bwys economaidd i Gymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr i'w gwneud yn haws iddynt roi adborth ar eu hanghenion penodol ac i sicrhau bod rhaglenni hybu sgiliau perthnasol Llywodraeth Cymru, yn enwedig y Rhaglen Sgiliau Hyblyg, yn diwallu'r anghenion hyn.

### Y Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Mae cyflogwyr yn dal yn awyddus i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu sgiliau'u gweithlu a manteisio ar raglenni hybu sgiliau.

O ganlyniad, mae rhaglen Sgiliau Hyblyg Llywodraeth Cymru wedi'i chynllunio fel ymateb i'r hyn a ddysgwyd drwy werthuso rhaglenni hybu sgiliau'n allanol, ac fel ymateb i'r argymhellion a wnaed.

Bydd Uwch Reolwr Cysylltiadau yn rhoi cymorth ychwanegol drwy gwrdd yn bersonol â busnesau hen a newydd i gynnal archwiliad diagnostig o dwf a nodi unrhyw amcanion penodol i hybu eu twf.

Bydd Uwch Reolwr Cysylltiadau dynodedig yn cefnogi pob cwmni angori a phob cwmni o bwysigrwydd rhanbarthol, busnesau bach a chanolig sy'n tyfu'n gyflym, a phrosiectau a allai ddenu buddsoddiad mewnol, i'w helpu i ddiwallu eu hanghenion o ran sgiliau.

### Chwarae Teg

Mae Chwarae Teg yn ymgysylltu â chyflogwyr ac unigolion i wella cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle gan ddefnyddio arian gan Lywodraeth Cymru. Mae Chwarae Teg yn defnyddio nifer o ddulliau ymgysylltu gwahanol i wneud hyn ac mae tystiolaeth yn dangos eu bod yn llwyddo.

Cryfder Chwarae Teg yw eu harbenigedd a'u gallu i ddylanwadu ar nifer eang o gyflogwyr. Maent yn canolbwyntio ar y gweithle ac yn ceisio sicrhau cydraddoldeb rhwng y rhywiau mewn amrywiaeth o sectorau a grwpiau o gleientiaid.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arian craidd i Chwarae Teg a hynny'n seiliedig ar gynllun strategol tair blynedd a chynllun gweithredu blynyddol sydd â chysylltiadau clir â'r Cynllun Gweithredu Sgiliau a'r Datganiad Polisi Sgiliau. Cynhelir cyfarfodydd adolygu contractau bob chwarter hefyd i fesur perfformiad yn ôl y targedau a bennwyd yng Nghynllun Gweithredu Chwarae Teg.

## Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol

Bydd y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn cyflwyno Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol blynyddol i Lywodraeth Cymru, gan nodi blaenoriaethau ar gyfer eu rhanbarth a rheini'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr.

Cyrff strategol a gaiff eu harwain gan gyflogwyr yw'r Partneriaethau ac maent yn cynrychioli buddiannau rhanbarthol. Eu nod yw ceisio creu system sgiliau gynaliadwy sy'n ymateb i'r galw. Bydd pob Partneriaeth yn paratoi cynllun cyflogaeth a sgiliau blynyddol, yn nodi blaenoriaethau ar gyfer eu rhanbarth a'r rheini'n seiliedig ar anghenion cyflogwyr.

## Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (Y Bwrdd)

Cytunwyd ar drefn lywodraethu newydd sy'n golygu y bydd y Bwrdd yn atebol i'r Cyngor Datblygu Economaidd, a gaiff ei gadeirio gan Brif Weinidog Cymru. Mae'r Cyngor yn cynnig fforwm sy'n rhoi cyfleoedd i ymgysylltu, trafod a chydweithredu yng nghyswllt amrywiaeth eang o faterion sy'n dylanwadu ar fusnesau a'r economi. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o fyd busnes, mentrau cymdeithasol ac undebau llafur.

Mae'r Bwrdd yn fforwm effeithiol i gyflogwyr gyfrannu'n strategol ac i gynnig her gadarn i'r Llywodraeth wrth iddi lywio polisïau ym maes sgiliau, prentisiaethau, addysg uwch a dysgu gydol oes.

## Ymgynghori

**Y Cynllun Cyflogadwyedd**

Cafodd rhanddeiliaid allweddol a oedd yn gweithredu yn y trydydd sector a’r sector addysg bellach drosolwg cynnar o hynt y Cynllun Cyflogadwyedd. Rhoddwyd adborth i arweinwyr polisi.

Nodwyd rhanddeiliaid allweddol yn y trydydd sector, y sector addysg bellach a’r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a gynhaliwyd cyfuniad o gyfarfodydd unigol yn ogystal â chyflwyniadau a sesiynau adborth.

**Adolygu Trefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru (Adolygiad Diamond)**

Dechreuodd adolygiad allanol annibynnol o dan gadeiryddiaeth yr Athro Syr Ian Diamond ym mis Ebrill 2014. Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd y Panel Adolygu adroddiad interim a oedd yn cynnwys crynodeb ffeithiol o’r dystiolaeth a gasglwyd. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol, gan gynnwys argymhellion, fis Medi 2016.

**Polisi prentisiaethau**

Roedd partneriaid cymdeithasol wedi cymryd rhan mewn ymgynghoriad eang ynghylch y Polisi Prentisiaethau (Ionawr-Ebrill 2015). Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â’r cyhoedd drwy gyfrwng cyfarfodydd â chyflogwyr unigol a chyrff cynrychiadol.

Cafwyd ymateb ardderchog i’r ymgynghoriad (tua 130 o ymatebion ffurfiol): 26% gan gyflogwyr; 17% gan gyrff sy’n cynrychioli cyflogwyr; 3% gan unedau llafur.

## Gweithgareddau yn y Dyfodol

### Cronfa Ddysgu Undebau Cymru

Nod Cronfa Ddysgu Undebau Cymru yw annog a chynorthwyo gweithwyr i ddysgu yn y gweithle ac mae'n cydnabod rôl unigryw'r Undebau Llafur yn y broses o ddatblygu sgiliau a chyfleoedd i ddysgu yn y gweithle.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda TUC Cymru i adeiladu ar lwyddiant ysgubol Cronfa Ddysgu Undebau Cymru ac yn manteisio ar waith ardderchog y cylchoedd blaenorol i sicrhau bod y prosiectau diweddaraf yn fwy effeithiol fyth.

Yn benodol, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'r Undebau Llafur a TUC Cymru gan roi pwyslais arbennig ar ddileu'r rhwystrau sy'n wynebu'r rhai sy'n dysgu mewn ffyrdd anhraddodiadol, mewn partneriaeth â chyflogwyr ac eraill.

Caiff cynlluniau 2016-17 eu gwerthuso a disgwylir y caiff yr adroddiad terfynol ei gyhoeddi pan ddaw'r contract i ben fis Ebrill 2018.

### Polisi prentisiaethau

Mae posibilrwydd y caiff newidiadau deddfwriaethol eu cyflwyno fel rhan o agenda'r Sector Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol i'w cynnwys mewn Papur Gwyn Technegol (dechrau 2018).

### Ardoll brentisiaethau

Codir ardoll brentisiaethau ar gyflogwyr drwy'r DU sydd â bil cyflogau o £3m neu ragor. Fe'i cyflwynwyd gan Lywodraeth y DU heb ymgynghori dim â'r gwledydd datganoledig.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n cyflwyno polisi newydd a fydd yn diwallu anghenion cyflogwyr mewn ardaloedd â blaenoriaeth yng Nghymru, ni waeth beth yw eu statws o ran yr ardoll.

Byddwn yn hyrwyddo prentisiaethau'n ôl anghenion economi a chymunedau Cymru.

Ymgysylltwyd yn barhaus â chyflogwyr drwy gyfrwng cyfarfodydd â chyflogwyr unigol, cyfarfodydd grŵp a chyfarfodydd â chyrff cynrychiadol.

Hefyd, mae digwyddiadau'n cael eu trefnu i roi gwybodaeth am yr ardoll i gyflogwyr (un yn y Gogledd, un yn y Canolbarth ac un yn y De, a disgwylir i gyflogwyr o'r sectorau preifat a chyhoeddus fod yn bresennol).